DYDDIEDIG 13 IONAWR 2021

# DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981

# CYNGOR SIR DDINBYCH

# (LLWYBR TROED RHWNG FFORDD TALARGOCH I LWYBR CYHOEDDUS 19 GALLT MELYD YNG NGHYMUNED TREF PRESTATYN)

# GORCHYMYN ADDASU MAP SWYDDOGOL 2021


Gary Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

Cyngor Sir Ddinbych

Neuadd y Sir

Rhuthun

Sir Ddinbych

**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**

**MAP SWYDDOGOL A DATGANIAD HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS AR GYFER YR HEN SIR CLWYD**

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

**(LLWYBR TROED RHWNG FFORDD TALARGOCH I LWYBR CYHOEDDUS 19 GALLT MELYD YNG NGHYMUNED TREF PRESTATYN)**

**GORCHYMYN ADDASU MAP SWYDDOGOL 2021**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ddinbych o dan adran 53 (2) (b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") oherwydd ymddengys bod angen i'r awdurdod hwnnw addasu'r Map Swyddogol a'r Datganiad o Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer yr hen Gyngor Sir Clwyd o ganlyniad i'r digwyddiadau a nodir yn adran 53 (3) (c) (i) o Ddeddf sef:

(c) darganfod tystiolaeth sydd (o'i hystyried gyda'r holl dystiolaeth berthnasol arall sydd ar gael iddynt) yn dangos:

(i) bod hawl tramwy nad yw wedi'i dangos ar y map a'r datganiad yn bodoli neu yr honnir yn rhesymol ei bod yn bodoli dros dir yn yr ardal y mae'r map yn ymwneud ag o.

Mae'r awdurdod wedi ymgynghori â phob awdurdod lleol y mae ei ardal yn cynnwys y tir hwnnw y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef. Mae Cyngor Sir Ddinbych DRWY HYN yn GORCHYMYN:

1. At ddibenion y gorchymyn hwn y dyddiad perthnasol yw 13 Ionawr 2021.

2. Bydd y Map Swyddogol a'r Datganiad o Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer yr hen Sir Clwyd yn cael eu haddasu fel y disgrifir yn Rhan I a Rhan II o'r Atodlen a'u dangos ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn ("Cynllun y Gorchymyn").

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y'i cadarnhawyd a gellir ei enwi fel Gorchymyn Addasu Map Swyddogol Cyngor Sir Ddinbych (LLWYBR RHWNG FFORDD TALARGOCH I LWYBR TROED CYHOEDDUS 19 GALLT MELYD YNG NGHYMUNED TREF PRESTATYN) 2021.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR DDINBYCH** arno

ar y 13 dydd hwn o Ionawr 2021 yng ngŵydd:

6159

Llofnodwr Awdurdodedig:

# ATODLEN

## RHAN I

### Addasu Map Swyddogol

### Disgrifiad o'r llwybr i'w ychwanegu

Llwybr troed cyhoeddus sy'n dechrau o bwynt (a farciwyd A ar Gynllun y Gorchymyn) ar yr A547 Ffordd Talargoch gan ddechrau yn SJ 05892 80662 ac sy'n rhedeg tua'r de-ddwyrain am 42.8 metr hyd at bwynt yn SJ 05924 200480663 (a farciwyd fel pwynt B ar Gynllun y Gorchymyn) ac yna parhau i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am 59.2 metr hyd at bwynt yn SJ 05965 80592 (a farciwyd yn C ar Gynllun y Gorchymyn) lle mae'n ymuno â llwybr troed cyhoeddus presennol 19 sydd wedi'i farcio ar Gynllun y Gorchymyn.

**Lled:** Mae'r llwybr tua 3 metr o led gydag arwyneb glaswellt a phridd cymysg ar bob pwynt sydd wedi'i farcio ar Gynllun y Gorchymyn.

**Cyfyngiadau:** Y giât yn SJ 05294 80663 sydd wedi'i marcio'n bwynt B ar Gynllun y Gorchymyn.

## RHAN II

### Addasu Datganiad Swyddogol

### Disgrifiad o'r llwybr i'w ychwanegu

Bydd datganiad newydd yn cael ei gofnodi ar gyfer Llwybr Troed 55 yng Nghymuned Prestatyn i gynnwys y canlynol yng ngholofnau (1) i (6):

(1) 55
(2) Llwybr Troed Cyhoeddus
(3) Gan ddechrau o SJ 05892 80662 ar Ffordd Talargoch, yr A547, yn rhedeg i gyfeiriad y de-ddwyrain am 102.1 metr
(4) Pwynt yn SJ 05965 80592 lle mae'n ymuno â llwybr troed cyhoeddus 19
(5) 3 metr gydag arwyneb glaswellt a phridd cymysg
(6) Giât fochyn yn SJ 05294 80663

**Mae'r cynllun hwn yn rhan o'r Gorchymyn Addasu Cyngor Sir Ddinbych (Prestatyn 55) 2021**

**This plan forms part of the Denbighshire County Council (Prestatyn 55) Modification Order 2021**

Graddfa/Scale: 1: 2500

